# Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol
## Negeseuon Allweddol a Chamau Gweithredu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol | | | **Dyddiad** | 15.11.2017 |
| **Rhif y Cyfarfod** | 8 | **Amser Dechrau** | 09.45 | **Amser Gorffen** | 16:00 |
| **Yn Bresennol:** | Peter Davies (Cadeirydd) (Partneriaeth PD), Eve Read (Dŵr Cymru), Neville Rookes (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Emma Barton (Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol), Rachel Sharp (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru), Lesley Jones (Cadwch Gymru'n Daclus), Mike Parry (Cadeirydd Partneriaeth Pwllheli), David Harding (Mariteam Associates), Emily Williams (RSPB), Deanna Groom (CBHC), David Tudor (Ystad y Goron), Hannah Carr (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Declan Tobin (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Gill Bell (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chyswllt Amgylchedd Cymru), David Jones (Ynni Môr Sir Benfro), Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Phil Hollington (Cragen Llŷn a Môn), Jonathan Monk (Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau), Lucy Taylor (Partneriaeth Afon Hafren), Kirsty Lindenbaum (Cyfoeth Naturiol Cymru), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Graham Rees (Llywodraeth Cymru), Andy Fraser (Llywodraeth Cymru), Phil Coates (Llywodraeth Cymru), Gary Douch (Llywodraeth Cymru), Louise George (Llywodraeth Cymru), Rebecca Gorman (Llywodraeth Cymru), Zachary Shayler (Llywodraeth Cymru), Rob Floyd (Llywodraeth Cymru), Owain Edwards (Llywodraeth Cymru) | | | | |
| **Gwesteion** | Claire Carew (Croeso Cymru), Mair Bell (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), Griffin Carpenter (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), Jetske Germing (Surfers Against Sewage), Caroline Dawson (Clwstwr Bwyd Môr Cymru) | | | | |
| **Ymddiheuriadau** | David Clubb (Renewables UK), Dai Atkins (BSAC), Nick O'Sullivan (Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru), Peter Barham (Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr), Trevor Jones (Dyframaeth Cymru), Mark Russell (Cymdeithas Agregau Morol Prydain), Dr John O'Connor (Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Alan Morgan (Cadeirydd British Marine Wales). | | | | |

| # | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| 1. | Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau |
| 2. | Pontio o'r EU ac Adborth gan Is-grŵp y Moroedd a'r Arfordiroedd |
| 3. | Ras Cefnfor Volvo a'r wybodaeth ddiweddaraf am Flwyddyn y Môr 2018 |
| 4. | Diweddariad a chynigion gan y Grŵp Gweithredu ar Sbwriel Môr |
| 5. | Diweddariad gan Ynni Môr Cymru |
| 6. | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Gweithdy ar Oblygiadau Brexit o ran y Polisi Pysgodfeydd yng Nghymru |
| 7. | Sesiwn Holi ac Ateb ar yr Ymgynghoriad ynghylch Cynllunio Morol yng Nghymru |
| 8. | Cyfoeth Naturiol Cymru: Datganiadau Ardal a'r Cynllun Comisiynu Morol |
| 9. | Crynodeb a sylwadau o'r diwrnod ac adolygiad o'r dull Ymgysylltu â Rhanddeiliaid |
| 10. | Diwedd |

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (y Grŵp) yn darparu fforwm ar gyfer trafodaeth a dadl, yn ogystal â chymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru, ynghylch polisi morol ac arfordirol strategol. Dyma'r grŵp rhanddeiliaid cyffredinol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, sy'n eistedd ochr yn ochr â Grŵp Gweithredu ar Bysgodfeydd Môr Cymru, sef fforwm arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd.

Mae'r Grŵp yn cynnwys 32 o randdeiliaid arweiniol, sy'n cynrychioli buddiannau'r holl sectorau sydd â buddiant neu fuddsoddiad yn y Sector Morol yng Nghymru. Mae manylion y sectorau a'r sefydliadau arweiniol wedi'u cynnwys yng Nghylch Gorchwyl y grŵp.

Cynhaliodd y Grŵp ei wythfed cyfarfod yn y Ganolfan Gwyddorau Bywyd, Bae Caerdydd, ar 15 Tachwedd 2017. Mae'r negeseuon allweddol a'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Mae aelodau'r Grŵp yn gyfrifol am rannu negeseuon cyson â'u priod rwydweithiau, ac am gyflwyno unrhyw faterion sy'n codi. Os hoffech drafod unrhyw un o'r eitemau ar yr agenda mewn rhagor o fanylder, cysylltwch ag arweinydd eich sector. Os hoffech gael manylion cyswllt cynrychiolydd eich sector, cysylltwch â blwch post y Gweinidogion dros y Môr a Physgodfeydd: (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales).

## Negeseuon Allweddol ac Allbynnau

### Eitem 2: Pontio o'r EU ac Adborth gan Is-grŵp y Moroedd a'r Arfordiroedd

| **Negeseuon allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cafodd y Grŵp yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, ynghyd â gwaith Is-grŵp y Moroedd a'r Arfordiroedd;<br><br>• Yn dilyn canlyniad y refferendwm, sefydlodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ford gron, er mwyn sicrhau yr ymgysylltid yn gynnar â rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau Brexit.<br><br>• Yn ddiweddarach, sefydlwyd cyfres o is-grwpiau, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar y Moroedd a'r Arfordiroedd, ac yn cynnwys aelodau'r Grŵp yn bennaf.<br><br>• Trafododd y Grŵp y sefyllfa bresennol o ran Brexit, y Bil Ymadael a phwysigrwydd gweledigaeth tymor hwy ar gyfer y cyfnod ôl-Brexit.<br><br>• Rhoddodd aelodau Is-grŵp y Moroedd a'r Arfordiroedd ganmoliaeth i'r ffordd gadarnhaol yr oedd yr Is-grŵp yn gweithio, gan gydnabod;<br><br>o Ei fod wedi darparu fforwm i herio meddylfryd ynghylch effaith Brexit ar bysgodfeydd y glannau, cymunedau arfordirol ac ecosystemau yng Nghymru.<br><br>o Bod yna berthynas dda â'r is-grwpiau eraill, gan sicrhau bod goblygiadau ehangach yn cael eu canfod trwy groesffrwythloni. | **Cam Gweithredu 3.1:** Aelodau Is-grŵp y Moroedd a'r Arfordiroedd i barhau i gyfathrebu ag aelodau ehangach y Grŵp.<br><br>**Cam Gweithredu 3.2:** Adolygu Is-grŵp y Moroedd a'r Arfordiroedd yn barhaus, ac asesu'r buddion y mae'n eu darparu, er mwyn nodi pryd y dylai ei swyddogaeth ddod i ben. |

### Eitem 3: Blwyddyn y Môr

| **Pwyntiau Allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|

<table>
<tr>
<td>
Rhoddwyd trosolwg i'r Grŵp o Ymgyrch Blwyddyn y Môr 2018 a Ras Cefnfor Volvo;
<ul>
<li>Bydd Blwyddyn y Môr yn cael ei lansio'n swyddogol yng Nghymru yn adeilad y Pierhead ar 11 Rhagfyr, a hynny gan y cogydd enwog, Tom Simmonds.</li>
<li>Cychwynnodd Ras Cefnfor Volvo ar 22 Hydref 2017 yn Alicante, gan alw yn Melbourne, Hong Kong, Auckland a Newport UDA, cyn teithio i Gaerdydd ar gyfer pythefnos o seibiant rhwng 25 Mai a 10 Mehefin 2018.</li>
<li>Mae'r buddsoddiad sylweddol yn y ras yn adlewyrchu pwysigrwydd y cyfle hwn i roi Caerdydd a Chymru ar y map rhyngwladol, trwy gynnal y digwyddiad hwn.</li>
</ul>
Cydnabu'r Grŵp;
<ul>
<li>Y cyfle unigryw a gyflwynir gan Flwyddyn y Môr a Ras Cefnfor Volvo, gan gytuno bod dull cydweithredol yn hollbwysig er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn.</li>
<li>Mae gan Flwyddyn y Môr y potensial i greu buddion byrdymor, yn ogystal â hirdymor, ar gyfer y sector Morol a chymunedau arfordirol yng Nghymru.</li>
</ul>
Trwy gyfrwng gweithdy, amlygodd y Grŵp:
<ul>
<li>Yr amrywiaeth o gyfleoedd yn y Sector Morol yng Nghymru a oedd â'r potensial i ategu cynllun ymgyrch Blwyddyn y Môr, fel y'u gwelir yn Atodiad A.</li>
<li>Yr angen i weithredu ar lefel Cymru gyfan ac i sicrhau bod gweithgareddau, lleoedd a chyfleoedd yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo y tu hwnt i Gaerdydd.</li>
<li>Yr angen i chwilio am ffyrdd arloesol o hyrwyddo ecosystemau morol, yn rhan o'r broses o hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid.</li>
</ul>
</td>
<td>
Cam Gweithredu 4.1: Cytunodd aelodau'r Grŵp i weithio gyda'u sectorau i nodi gweithgareddau gydol Blwyddyn y Môr, ac i ddarparu'r rhain i Croeso Cymru.
</td>
</tr>
</table>

<u>Eitem 4: Y Grŵp Gweithredu ar Sbwriel Môr a Chynigion</u>

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cyflwynodd y Tasglu Sbwriel Môr (a sefydlwyd gan y Grŵp i ddatblygu Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol i Gymru) gyfres o gynigion i'r grŵp.<br><br>Atgoffwyd y Grŵp am yr her fyd-eang yr oedd plastigion yn y môr yn ei chyflwyno, ynghyd â'r gwaith eang a oedd eisoes yn mynd rhagddo ledled Cymru i helpu i fynd i'r afael â hyn.<br><br>Cynigiodd y Tasglu Sbwriel Môr:<br>• Sefydlu rhaglen tair blynedd o gydweithredu i fynd i'r afael â sbwriel môr.<br>• Sefydlu 'Partneriaeth Moroedd Glân Cymru’<br>• Gofyn i aelodau'r Grŵp ymrwymo i Adduned Moroedd Glân Cymru, yn unol ag Adduned Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig.<br><br>Cefnogodd aelodau'r Grŵp y cynigion hyn.<br><br>Roedd y Grŵp yn cydnabod:<br>• Y gallai cydgysylltu'r Bartneriaeth Moroedd Glân yn rhan o Flwyddyn y Môr arwain at gynyddu effaith unrhyw fentrau sbwriel môr.<br>• Bod angen cyfranogiad gan y sector preifat. Y byddai'n haws ymgysylltu â busnesau bach. Yr her fyddai sicrhau buddsoddiad gan gorfforaethau mawr.<br>• Ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymrwymo i'r Adduned Moroedd Glân yn rhan o'i hymrwymiad i Ras Cefnfor Volvo. | Cyflwyno’r cynnig i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, gan gynnwys y cais i ymrwymo i'r Adduned Moroedd Glân<br><br>Aelodau'r Grŵp i ystyried eu haddunedau eu hunain ac ymateb i'r tasglu.<br><br>Cyfarfod o'r Tasglu Sbwriel Môr/Grŵp Llywio ar gyfer y Bartneriaeth Moroedd Glân i gynllunio dulliau cyfathrebu wedi'i drefnu, trwy Cadwch Gymru'n Daclus, ar gyfer 2pm, 5 Rhagfyr yng Nghaerdydd.<br><br>Y Grŵp i adeiladu ar Bartneriaeth Moroedd Glân Cymru a'r addunedau/gweithgareddau cysylltiedig i'w lansio o amgylch Uwchgynhadledd y Môr ar 5 Mehefin yn rhan o Ras Cefnfor Volvo. |

Eitem 5: Ynni Môr Cymru

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Clywodd y Grŵp am y modd y mae ymgyrch Ynni Môr Cymru yn dwyn ynghyd datblygwyr technoleg, y gadwyn gyflenwi, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus, er mwyn helpu i sefydlu Cymru yn arweinydd byd-eang o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy'r môr. | Dim camau gweithredu ar gyfer y Grŵp. |

| | |
|---|---|
| Eglurodd Ynni Môr Cymru ei bod bellach yn gweithredu mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys asesiadau trylwyr o adnoddau, cyfyngiadau o ran datblygu, seilwaith, ac effaith economaidd bosibl a ffeithiol.<br><br>Disgrifiodd Ynni Môr Cymru yr amrywiaeth o fuddsoddwyr y mae'n gweithio gyda nhw i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ledled Cymru, gan gynnwys prosiectau llif y llanw, tonnau, amrediad llanw, yn ogystal â pharthau datblygu a phrofi dyfeisiau.<br><br>Rhoddodd y Grŵp ganmoliaeth i waith Ynni Môr Cymru o ran datblygu'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru.<br><br>Nododd y Grŵp:<br>• fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed i gynhyrchu gwerth 70% o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.<br>• bod y môr yn ased allweddol i Gymru o ran y sector ynni adnewyddadwy.<br>• bod yna ymgyrch briodol a chyffredinol i symud tuag at ynni gwyrdd.<br>• bod angen hefyd gymryd amser i ddeall yr effeithiau amgylcheddol yng nghyd-destun Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. | |

<u>Eitem 6: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Goblygiadau Brexit o ran y Polisi Pysgodfeydd yng Nghymru</u>

| **Negeseuon Allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cafodd y Grŵp gyflwyniad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar oblygiadau Brexit o ran y Polisi Pysgodfeydd yng Nghymru. Roedd y cyflwyniad yn ystyried yr hyn a olygid wrth gyfran deg o'r pysgod, a'r modd y gellid rheoli pysgodfeydd er budd y cyhoedd yng Nghymru.<br><br>Roedd yn canolbwyntio ar y Polisi Pysgodfeydd yng nghyd-destun senarios gwahanol o ran Brexit, gan ddadansoddi'r senarios hynny yn fanylach trwy amrywiaeth o ffactorau: (gosod terfynau pysgota, y rhaniad rhwng gwledydd, y rhaniad rhwng gweinyddiaethau, dyrannu systemau rheoli cyffredinol i fflydoedd neu gychod, a | Becky Gorman i ddosbarthu papur y Sefydliad Economeg Newydd, 'Not in the Same boat – The economic impact of Brexit across UK fishing fleets', ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 17 Tachwedd 2017.<br><br>Llywodraeth Cymru i ddosbarthu adroddiad terfynol Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. |

| | |
|---|---|
| pholisïau dyrannu swyddi).<br>Archwiliodd y grŵp nifer o faterion, gan gynnwys;<br><br>• Sut y gall y fflyd addasu er mwyn pysgota am bysgod neu rywogaethau eraill mewn modd cynaliadwy.<br>• Pa ofynion sy'n ofynnol yn y dyfodol o ran seilwaith porthladdoedd.<br>• Pwyso a mesur y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a'r Cynnyrch Economaidd Mwyaf o ran pysgota, er mwyn canfod yr hyn a allai fod o fudd i fflydoedd pysgota Cymru, yn ogystal â fflydoedd pysgota eraill.<br><br>Hefyd, trafododd y grŵp:<br><br>Y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a chymhwyso'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau. Gan fod ecosystemau morol yn ymestyn dros ardaloedd mawr, mae angen cydweithrediad rhyngwladol ar ffurf Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r disgrifyddion o dan y Gyfarwyddeb yn ymdrin â rheoli pysgod mewn modd cynaliadwy a chyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf, neu fesurau tebyg. Maent hefyd yn cynnwys y gofyniad am rwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig, sbwriel môr, a nifer o ystyriaethau pwysig eraill o ran ecosystemau. | Llywodraeth Cymru i ystyried meysydd ymchwil eraill ar sail yr opsiynau polisi yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. |

Eitem 7: Ymgynghoriad ynghylch Cynllunio Morol yng Nghymru

| **Negeseuon Allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cafodd y Grŵp gyflwyniad ar gynnydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Roedd hwn yn pennu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cynllunio morol a'r broses gynllunio, ac yn disgrifio strwythur a chynnwys y cynllun, gan gynnwys y polisïau cyffredinol a sector-benodol, a nifer o feysydd strategol allweddol o ran adnoddau.<br><br>Yn amodol ar gymeradwyaeth Ysgrifennydd Gwladol Defra, cyflwynir y Cynllun Morol ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar ym mis Rhagfyr 2017, a hynny am gyfnod o 16 wythnos. | Llywodraeth Cymru i rannu dyddiadau ar gyfer y sesiynau cyhoeddus a'r gynhadledd |

| | |
|---|---|
| Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd cyfres o sesiynau galw heibio cyhoeddus yn cael eu cynnal ledled Cymru, yn ogystal â chynhadledd ar Gynllunio Morol ym mis Ionawr 2018.<br><br>Trafododd y grŵp:<br>• Y camau nesaf o ran rhoi'r cynllun ar waith, a'i fonitro, ynghyd a'r heriau neu'r newidiadau y byddai angen eu hystyried yn y dyfodol, er enghraifft Brexit a newidiadau i bwerau datganoledig.<br><br>Nododd aelodau'r Grŵp;<br>• nad oedd rhai o elfennau'r cynllun o ran polisïau sector-benodol wedi'u disgrifio'n glir yn y cyflwyniad. Hefyd, roedd yna rai cwestiynau'n bodoli o hyd ynghylch cwmpas a graddau'r meysydd strategol o ran adnoddau, a'r dystiolaeth a oedd ar gael i'w llywio. Byddai'r cyfle am ddeialog yn y dyfodol, gan gynnwys trwy gynhadledd ar gynllunio morol, yn fuddiol yn ystod y cyfnod ymgynghori. | |

Eitem 8: Cyfoeth Naturiol Cymru: Datganiadau Ardal a'r Cynllun Comisiynu Morol.

| **Negeseuon Allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cafodd y Grŵp gyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gefnogi'r broses o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn yr ardal forol.<br><br>Clywodd y grŵp:<br>• fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgorffori'r broses hon yn ei ffordd o weithio, gan ei hategu trwy ddatblygu Datganiadau Ardal, a'i chysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br>• Bydd fframwaith Polisi Cymru ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Datganiadau Ardal yn hwyluso'r broses o weithredu blaenoriaethau'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn y sector morol.<br>• Bod y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn cyfeirio at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel y fframwaith allweddol ar gyfer Rheoli Adnoddau | Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid trwy'r Grŵp yn 2018 ynghylch materion a chyfleoedd morol, a hynny trwy ddatblygu'r Datganiadau Ardal morol.<br><br>Mae croeso i aelod o'r Grŵp gysylltu â'r cydgysylltydd Datganiadau Ardal morol trwy e-bost: Kathryn.Hughes@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |

| | |
|---|---|
| Naturiol yn Gynaliadwy yn y sector morol.<br>• Bod cydgysylltydd Datganiadau Ardal morol bellach mewn swydd yn Cyfoeth Naturiol Cymru. | |

Eitem 9: Crynodeb a sylwadau o'r diwrnod ac adolygiad o'r dull Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| **Pwyntiau Allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Trafododd y Grŵp elfennau o'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid gydol y dydd:<br><br>Yn ei gasgliad, cydnabu Cadeirydd y Grŵp fod y model ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid y Môr a Physgodfeydd yn dda, ond bod angen sicrhau ei fod yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd a oedd yn hwyluso cyfraniad ac ymateb ystyrlon, ac yn osgoi eu diflasu.<br><br>Nododd y grŵp:<br><br>• Fod yna nifer o grwpiau rhanddeiliaid pwnc-benodol yn rhan o fodel grwpiau rhanddeiliaid presennol y Môr a Physgodfeydd.<br>• Eglurodd swyddogion fod natur drawsbynciol y gwaith a wneir mewn perthynas â'r môr yn golygu y byddai barn y Grŵp cyfan yn cael ei cheisio wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch meysydd penodol o waith, er enghraifft y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a Bioamrywiaeth Morol.<br>• Mynegodd aelodau'r Grŵp awydd i weld rhagor o welliant o ran y broses o gyfathrebu allbynnau gan rai o grwpiau rhanddeiliaid y Môr a Physgodfeydd. | Mae Cadeirydd y Grŵp wedi ymrwymo i weithio gydag aelodau'r Grŵp a Llywodraeth Cymru i arolygu'r dull ymgysylltu presennol, a'i fireinio ymhellach.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r negeseuon allweddol a'r camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd y Grŵp, ac yn eu rhannu ar adran y Môr a Physgodfeydd y wefan, ochr yn ochr â diweddariad i Ddefnyddwyr y Môr.<br><br>Bydd cyfarfod ychwanegol o'r grŵp yn cael ei drefnu ar gyfer 2018. Felly, bydd tri chyfarfod yn cael eu trefnu i'w cynnal yn ystod 2018.<br><br>Bydd rhanddeiliaid yn darparu cynnwys dwyieithog ar gyfer Diweddariadau i Ddefnyddwyr y Môr yn y dyfodol. |

**Atodiad A**: Blwyddyn y Môr – Adborth ar y Cynllunydd Themâu a Chynnwys

| Morweddau Epig (Ionawr, Chwefror, Mawrth) | Cymunedau a Chyfalaf Arfordirol (Ebrill, Mai, Mehefin) | Arfordiroedd Byw (Gorffennaf, Awst, Medi) | Arfordiroedd Cysylltiedig (Hydref, Tachwedd, Rhagfyr) |
|---|---|---|---|
| • Cysylltu â'r gymuned fwyd/ rhwydwaith/clwstwr/bwrdd bwyd a diod/dull strategol<br>• Y Clwstwr Bwyd Môr – Mermaid Seafood (Gogledd Cymru); siop newydd sy'n codi proffil bwyd môr (yn y Canolbarth a'r De, o bosibl, hefyd)<br>• Datblygu Pryd Bwyd Cenedlaethol i Gymru (sy'n seiliedig ar fwyd môr)<br>• Codi proffil y bwyd môr sydd ar gael yng Nghymru (Ysgadan Cochion Mwg Aberdaugleddau). Ansawdd bwyd môr o Gymru (ei hyrwyddo), ar sail yr amgylchedd<br>• Gwymon, halen môr, fel eitem o fwyd | • Cyfle i fusnesau gysylltu/fanteisio ar VoR<br>• Eco-ysgolion – annog plant i gymryd rhan yn VoR<br>• Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr/Partneriaeth Moroedd Glân<br>• Dathlu 30 mlynedd o'r Faner Werdd<br>• RSPB – Cyllid gan Croeso Cymru ar gyfer profiad rhyngweithiol<br>• Profiad ymwelwyr o fwyd môr – 'prynu'n lleol' (yn amodol ar gyllid)<br>• Mapio data llwybr yr arfordir | • Defnyddio'r arfordir mewn modd cynaliadwy. Defnydd cyfrifol – bydd Codau Ymarfer (dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir | • Cyfle i gysylltu â Wales Way Pride<br>• Hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy'r Cynllun Morol<br>• Hyrwyddo'r gwaith o reoli moroedd Cymru (Deddf yr Amgylchedd/Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a Brand Cymru (Bwyd)<br>• Gwaharddiad ar Ficrobelenni<br>• Manteision iechyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Treftadaeth y Diwydiant Morol<br>• Archwilio Afon Hafren – y 17 o leoedd mwyaf eiconig. Arfer da. Partneriaeth Aber Afon Hafren – mae swyddog ymgysylltu newydd yn cael ei recriwtio i gysylltu â'r prosiect Archwilio<br>• Stormydd, lliniaru erydu arfordirol, twristiaeth Natur Epig<br>• Yr angen i adlewyrchu bywyd gwyllt (palod, llamidyddion, dolffiniaid, ac ati.)<br>• Nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig<br>• Archaeoleg danddwr (llongddrylliadau, teithiau rhithwir 360 gradd)<br>• Teithiau plymio<br>• Gwerth Pysgota Hamdden | • Deall effaith stormydd (e.e. Storm Brian)<br>• Seafood EXPO Global – presenoldeb YoS, Epic Welsh Seafood, Twristiaeth Croeso Cymru | | |